# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-23-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 19 Medi 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Joanest Jackson

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-22-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1346 - Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006

Gofynnwyd a oedd y Rheoliadau hyn yn rhoi sicrwydd yn erbyn symud llyfrau gre o'r wlad y maent yn tarddu ohoni. Eglurodd y Cynghorydd Cyfreithiol nad oedd yr Offeryn Statudol hwn yn cynnwys y mater hwn. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1343 - Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006

LC1344 - The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006

## Eitem 5: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 29

5.1 Mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ganlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1345 - Cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys 2006

Camau i'w gymryd

Nid oedd unrhyw gamau i'w cymryd.

## Eitem 6: Gohebiaeth y Pwyllgor

6.1 Ymateb Rhodri Morgan AC, y Prif Weinidog, i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau i esbonio'r pwynt a godwyd yn llythyr y Prif Weinidog ynghylch storio copïau papur o'r drafftiau gwreiddiol a'r diwygiadau a ystyrir gan y Cynulliad

Nodwyd bod modd dehongli paragraff terfynol ymateb y Prif Weinidog i olygu nad oes lle diogel i storio cofnodion ar hyn o bryd. Cytunodd y Cadeirydd fod dehongliad o'r fath yn bosibl, er ei fod ef wedi deall bod y llythyr yn cyfeirio at gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

6.2 Nododd y Cynghorydd Cyfreithiol fod prosiect wedi dechrau a oedd yn ymwneud â drafftio Mesurau'r Cynulliad ac olrhain datblygiad deddfwriaeth yn ddiogel ar ôl iddi ddod i'r Cynulliad Cenedlaethol gan y Llywodraeth. Cytunwyd ei bod yn bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y mater hwn ar ôl gwneud rhywfaint o gynnydd gyda'r prosiect.

6.3 Ymateb Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau ynghylch:

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005 (LC1286)

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi ystyried y Rheoliadau y cyfeirir atynt uchod yn y cyfarfod ar 14 Mawrth - roedd y rheoliadau'n dilyn y weithdrefn Weithredol a chan ei bod yn rhy hwyr gwneud cywiriadau o dan y weithdrefn Memorandwm Cywiriadau, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog i ofyn am ei sylwadau o dan Reol Sefydlog 11.6. Nododd y Pwyllgor ateb y Gweinidog.

6.4 Ymateb Sue Essex AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau ynghylch:

- Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Darpariaethau Trosiannol) 2006 (LC1276)

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi ystyried y Gorchymyn y cyfeirir ato uchod ar 2 Mai. Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog gan nodi nad oedd diffyg amser yn esgus dros beidio â chyfieithu'r Gorchymyn uchod ym marn yr Aelodau, gan ei fod yn un byr iawn. Nododd y Pwyllgor ateb y Gweinidog.

## Eitem 7: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 26 Medi 2006.